# Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2
# 2025-26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

## Darlith 16 : Taclo'r treigladau (2)

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

# Tasg adolygu

## Troi'r Olwyn:






# Cywir neu Anghywir?



Prynhawn da, plant.

Cyfarch = **treiglad meddal**.

# Cywir neu Anghywir?



Mae e wedi anghofio ei waith cartref.

ei waith

'Ei' gwrywaidd= **treiglad meddal.**

# Cywir neu Anghywir?



Ydych chi eisiau chwarae gêm y gadair coch?

Mae **treiglad meddal** ar ôl enw benywaidd unigol e.e cadair goch

# Cywir neu Anghywir?



Rydw eisiau dau pensil ac un llyfr.

Mae treiglad meddal ar ôl ‘dau’ a ‘dwy’e.e.
dau bensil.

# Cywir neu Anghywir?



Rho dy waith ar ddesg Miss Parri.

**Treiglad meddal** ar ôl 'dy'
**Treiglad meddal** ar ôl yr arddodiad 'ar'.

# Cywir neu Anghywir?



Mae dy waith yn rhagorol ac yn taclus.

Mae ansoddeiriau'n **treiglo'n feddal** ar ôl 'yn' ond dim 'll' a 'rh' **e.e.** yn daclus.

# Y tabl treiglo

| Llythyren cyn treiglo | Treiglad meddal | Treiglad trwynol | Treiglad llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y treiglad trwynol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| p | t | c | b | d | g |
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| mh | nh | ngh | m | n | ng |






# Y treiglad trwynol
# Beth am syniadau drilio?





| p | t | c | b | d | g |
|---|---|---|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| mh | nh | ngh | m | n | ng |




# Beth sy'n achosi'r treiglad trwynol?

**Rheol 1:**

Mae'r **treiglad trwynol** yn digwydd…

…ar ôl y rhagenw '**fy**'

e.e. fy **mh**en, fy **nh**rwyn, fy **ngh**eg

Gall fod yn ferf neu'n enw yn dilyn '**fy**', e.e.

fy **nh**rosglwyddo (trosglwyddo)

fy **ngh**anmol (canmol)

# Ymarfer defnyddio'r treiglad trwynol ar ôl y rhagenw 'fy.'



Tasg: Rhowch y rhagenw '**fy**' o flaen yr enwau canlynol:

cadair

garddwrn

desg

bag

pêl

brawd

gwaith cartref

telyn

# Atebion:



| | |
|---|---|
| cadair | fy **nghadair** |
| garddwrn | fy **ng**arddwrn |
| desg | fy **n**esg |
| bag | fy **m**ag |
| pêl | fy **mh**êl |
| brawd | fy **m**rawd |
| gwaith cartref | fy **ng**waith cartref |
| telyn | fy **nh**elyn |

Sylwch dydy'r ail air ddim yn treiglo.

# Beth sy'n achosi'r treiglad trwynol?

**Rheol 2:**

Mae'r treiglad trwynol yn digwydd…

….ar ôl yr arddodiad '**yn**' pan fydd yn golygu *'in'.*

e.e. **yng Ngh**aerdydd, **ym Mh**enarth, **yn Nh**onyrefail, yn **N**e Cymru

Cofiwch: nid oes rhaid i hyn fod yn enw lle, gall fod yn sefyllfa arall: e.e.

- yng **ng**wersi Mrs Jones
- ym **m**eddwl hon
- yng **ngh**efn y dosbarth

Wnaethoch chi sylwi ar beth sy'n digwydd i'r **yn** cyn rhai geiriau sy'n treiglo'n drwynol?

# Rhowch yr arddodiad ‘yn’ o flaen y geiriau canlynol:



Cofiwch newid yr **yn** os oes angen!

| |
|---|
| Bangor |
| Gorseinon |
| Pontypridd |
| dosbarth Mr Parry |
| canol y cae |
| blaen y dosbarth |
| gardd yr ysgol |
| cornel y neuadd |

| **Atebion** |
|---|
| ym **M**angor |
| yng **Ng**orseinon |
| ym **Mh**ontypridd |
| yn **n**osbarth Mr Parry |
| yng **ngh**anol y cae |
| ym **m**laen y dosbarth |
| yng **ng**ardd yr ysgol |
| yng **ngh**ornel y neuadd |

Ysgrifennwch fwletin y tywydd..

Ond beth ydy'r gweithgaredd/gemau cyn hyn?



# Beth sy’n achosi’r treiglad trwynol?

**Rheol 3:**

Mae’r enwau ‘diwrnod, blwydd, blynedd’ yn **treiglo’n drwynol**…

…. ar ôl pum, saith, wyth, naw, deng, deuddeng, pymtheng, deunaw, ugain, can. e.e.

pum **n**iwrnod

deng **m**lwydd (oed)

naw **m**lynedd

# Y treiglad llaes

| p | t | c |
|---|---|---|
| ↓ | ↓ | ↓ |
| ph | th | ch |

# Treiglad llaes: Rheol 1

Daw treiglad llaes ar ôl y rhagenw ei, ‘i, ‘w  sy’n cyfeirio at feddiant benywaidd *(her).* Cofiwch does dim ots beth ydy cenedl yr enw sy’n dilyn y rhagenw, bydd angen treiglo’r enw yn llaes e.e.

ei **chi** hi.

ei **ch**ath hi.

gyda’i **th**eulu hi.

Mae hi wedi dolur i’r **ph**en.

# Disgrifiwch y wrach.

ceg
trwyn
gwallt
het
clogyn
llygaid
llais
crochan
esgidiau
gên



# Treiglad llaes: Rheol 2

Daw treiglad llaes ar ôl y cysyllteiriau:

**'a'** sy'n golygu *'and'* a **'na'** sy'n golygu *'than'* e.e.







Mae gen i bapur **a** **phensil.**

Mae'n well gen i Addysg Gorfforol **na** **Ch**elf.

# Treiglad llaes: Rheol 3

Daw treiglad llaes ar ôl yr arddodiaid:

**‘â’** sy’n golygu *‘with’*, **‘tua’** a **‘gyda’** e.e.







Byddwn ni’n ymweld â **ch**astell.

Roedd tua **ph**ymtheg yn yr ymarfer côr heddiw.

Gweithiwch gyda **ph**artner i wneud yr arbrawf.

# Treiglad llaes: Rheol 4

Daw treiglad llaes ar ôl y rhifolion ‘tri’ a ‘chwe’ e.e.





Tri <u>**ch**</u>westiwn.

Chwe <u>**ph**</u>ensil.

# Treiglad llaes



Darllenwch y brawddegau canlynol a'u cywiro:

1. Byddwn ni'n gwneud symiau adio a tynnu heddiw.
2. Dylet ti fwyta ffrwythau yn hytrach na creision.
3. Roedd y gêm wedi gorffen tua pum munud i bedwar.
4. Mae ei canlyniadau hi yn arbennig o dda.
5. Roedd tua cant o bobl yn y ffair Nadolig.
6. Bydd angen siswrn, glud a cerdyn arnoch chi ar gyfer y wers gelf heddiw.
7. O na! mae ei pensil hi wedi torri!
8. Rydw i'n mwynhau rygbi yn fwy yn na pêl-droed.

# Atebion:

1. Byddwn ni'n gwneud symiau adio a **th**ynnu heddiw.

2. Dylet ti fwyta ffrwythau yn hytrach na **ch**reision.

3. Roedd y gêm wedi gorffen tua **ph**um munud i bedwar.

4. Mae ei **ch**anlyniadau hi yn arbennig o dda.

5. Roedd tua **ch**ant o bobl yn y ffair Nadolig.

6. Bydd angen siswrn, glud a **ch**erdyn arnoch chi ar gyfer y wers gelf heddiw.

7. O na! mae ei **ph**apur ar goll!

8. Rydw i'n mwynhau rygbi yn fwy yn na **ph**êl-droed.

# Adolygu'r treigladau gan ddefnyddio rhagenwau.

Driliwch y patrymau gan daflu pêl o un i'r llall:

| |
|---|
| fy + treiglad trwynol |
| dy + treiglad meddal |
| ei (g) + treiglad meddal |
| ei (b) + treiglad llaes |

| |
|---|
| fy **mh**apur |
| dy **b**apur |
| ei **b**apur |
| ei **ph**apur |

Y Blwch Llythrennedd

papur

# Adolygu'r treigladau gan ddefnyddio rhagenwau.

Driliwch y patrymau gan ddefnyddio pêl o un i'r llall:

| |
|---|
| fy + treiglad trwynol |
| dy + treiglad meddal |
| ei (g) + treiglad meddal |
| ei (b) + treiglad llaes |

| |
|---|
| fy **nh**eulu |
| dy **d**eulu |
| ei **d**eulu |
| ei **th**eulu |

Y Blwch Llythrennedd

teulu

# Adolygu'r treigladau gan ddefnyddio rhagenwau.

Driliwch y patrymau gan ddefnyddio pêl o un i'r llall:

| |
|---|
| fy + treiglad trwynol |
| dy + treiglad meddal |
| ei (g) + treiglad meddal |
| ei (b) + treiglad llaes |

| |
|---|
| fy **nghoffi** |
| dy **goffi** |
| ei **goffi** |
| ei **choffi** |

Y Blwch Llythrennedd

coffi

# Amser ymarfer.

| |
|---|
| fy |
| dy |
| ei |
| ei |



# Amser ymarfer.














# Adnoddau defnyddiol




Cardiau drilio o'r Blwch Llythrennedd

















# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o dri



Gwaith pâr



Tasg ysgrifennu



Drilio



Help llaw


Diolch
yn Fawr